



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG45289

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Rydym am glywed eich barn am ein Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar  
Ddigartrefedd

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion : 18 Medi 2023

**OGL** © Crown copyright 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh

## Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (EHOF) yw rhoi cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal digartrefedd a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru trwy nodi'r canlyniadau tymor hir a ddymunir a dangos y cynnydd at gyflawni'r canlyniadau hynny dros amser
- 1.2 Mae'r EHOF wedi'i gynllunio yn benodol i ddangos effaith y camau lefel uchel a nodir yn y [Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) a'r hyn sy'n cael ei wneud i'w cymryd. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Mae **Tabl 1** ar dudalen 3 y ddogfen hon yn dangos sut y mae pob un o'r Canlyniadau Strategol yn y Fframwaith Canlyniadau yn gyson â'r Cynllun Gweithredu. Disgrifir hyn hefyd yn y ddogfen ymgynghori (gweler tudalennau 12-13 <https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd>)


### 2. Datblygu'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

2.1 Mae'r Fframwaith Canlyniadau wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- **Canlyniadau Strategol** – Nodi'r canlyniadau cyffredinol bras sy'n adlewyrchu prif themâu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd
- **Canlyniadau Manwl** – Fel sail i bob Canlyniad Strategol, ceir ystod o ganlyniadau manwl i ddiffinio'r canlyniadau penodol a ddymunir ar gyfer pobl Cymru.
- **Dangosyddion data** – Mae gan bob canlyniad manwl o leiaf un 'dangosydd data' fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd dros amser at gyflawni'r canlyniad.

Dangosir hyn yn **Niagram 1** isod:

**Diagram 1: Darlun cysyniadol o'r modd y datblygwyd y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**



### 3. Canlyniadau Strategol

3.1 Mae **Diagram 2** isod yn nodi'r chwe Chanlyniad Strategol. Maent wedi'u dewis i gyfleu prif themâu ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, sef gwneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog, na fydd yn digwydd eto, a'r hegwyddorion polisi sy'n sail iddynt.



**Diagram 2: Canlyniadau strategol**

Mae **Tabl 1** isod yn rhoi'r rhesymau dros bob Canlyniad Strategol ac yn esbonio sut y mae pob un yn alinio â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

**Tabl 1: Y Rhesymau sy'n sail i'r Canlyniadau Strategol**

| Y Canlyniad Strategol |   | Rhesymau   |
|-----------------------|---|--|
| 1                     | <b>Prin:</b> Mae pobl yn cael eu hatal rhag profi digartrefedd yn y lle cyntaf mor gynnar â phosibl   | <p>I adlewyrchu ein hymrwymiad i atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf a sicrhau bod y sylw iawn yn cael ei roi ar y meysydd iawn ar gyfer ei atal.</p> <p><i>Mae hyn yn gyson â'r thema gyffredinol a'r egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu mai'r mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser.</i></p>   |
| 2                     | <b>Byrhoedlog:</b> Mae pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os ydyn nhw'n profi digartrefedd  | <p>I adlewyrchu ein hymrwymiad i drawsnewid y system i roi pwyslais ar 'ailgartrefu'n gyflym' fel bod pobl sy'n profi digartrefedd yn cael eu symud i gartref sefydlog, hunangynhwysol a diogel cyn gynted â phosibl a'u bod yn cael y lefel briodol o gymorth i wneud hynny.</p> <p><i>Mae hynny'n gyson â'r thema gyffredinol yn y Cynllun Gweithredu y bydd ffocws cenedlaethol ar ailgartrefu'n gyflym yn arwain at Gymru lle mae digartrefedd yn beth byrhoedlog.</i></p> |
| 3                     | <b>Ddim yn digwydd eto:</b> Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref   | <p>I adlewyrchu ein hymrwymiad i ganolbwyntio ar yr unigolyn – sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu.</p> <p><i>Mae hyn yn gyson â'r thema gyffredinol yn y Cynllun Gweithredu</i></p>  |
| 4                     | <b>Gweithlu:</b> Datblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy'n gadarn ac sy'n cael ei werthfawrogi, a'i gydnabod am ei arbenigedd                                | <p>I adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy'n gadarn ac sy'n cael ei werthfawrogi, a'i gydnabod am ei arbenigedd.</p> <p><i>Mae hyn yn gyson â Cham 5 yn y Cynllun Gweithredu.</i></p>  |
| 5                     | <b>Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus:</b> Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma i roi diwedd ar ddigartrefedd | <p>I adlewyrchu ein huchelgais bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n cydweithio'n effeithiol i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno.</p> <p><i>Mae hyn yn gyson ag egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu bod mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater i wasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na 'thai' yn unig.</i></p>  |

|   |  |  |
|---|--|--|
| 6 | <p><b><i>Canolbwyntio ar yr Unigolyn: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau mynediad cyfartal i bawb sy'n diwallu anghenion eu pobl leol ac sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.</i></b></p> | <p>I adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael cymorth a bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwerthfawrogi profiadau byw pobl.</p> <p><i>Mae hyn yn gyson ag egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu y dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wna a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma.</i></p> |
|---|--|--|

#### 4. Y canlyniadau manwl a'r dangosyddion data sy'n sail iddynt:

Mae'r tablau yng ngweddill y ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am bob un o'r Canlyniadau Manwl a gynigir sy'n sail i bob Canlyniad Strategol; ynghyd â'r dangosyddion data sydd wedi'u dewis i fesur cynnydd pob canlyniad manwl. Mae lliw statws 'RAG' wedi'i roi i bob dangosydd data:

|  |
|--|
| <b>Allwedd i'r data</b>  |
| <b>Yn cael eu cofnodi nawr</b>   |
| <b>Yn cael eu cofnodi'n rhannol/angen ailddechrau casglu'r data</b>      |
| <b>Ddim yn cael eu casglu nawr – posibilrwydd eu casglu yn y dyfodol</b> |

#### Dangosyddion data

- 4.1 Mae swyddogion polisi Atal Digartrefedd gan gydweithio'n glos ag Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wedi paratoi 'rhestr hir' o ddangosyddion data. Rhoddwyd ystyriaeth i ffynonellau data eraill hefyd a dichonoldeb casglu data yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y 'dangosyddion data' a gynigir yn hysbysu ac yn mesur cynnydd pob canlyniad manwl yn gywir.
- 4.2 Ceir rhai dangosyddion data nad ydynt yn cael eu cofnodi'n llawn os o gwbl mewn ffynonellau data presennol. Os nad ydym wedi llwyddo i gael hyd i ffynonellau i fesur dangosyddion, mynegir bod y rheini'n uchelgais ar gyfer y dyfodol ac rydym wedi'u lliwio'n goch. Os yw'r dangosyddion data wedi'u cofnodi'n rhannol neu os gellir eu hamcangyfrif trwy ddefnyddio mesuriadau data eraill, byddwn wedi'u lliwio'n felyn ac yn eu galw'n ddangosyddion 'procsi'.
- 4.3 Dylid nodi y gallai'r dangosyddion data a gynigir a'r ffynonellau data sy'n sail iddynt newid, yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau a'r newidiadau yn y dyfodol i ddeddfwriaeth digartrefedd ac effeithiau'r rheini ar ddyletswyddau'r sector cyhoeddus a'r casgliadau data statudol yn sgil hynny.

**PRIN: Mae pobl yn cael eu hatal rhag profi digartrefedd yn y lle cyntaf mor gynnar â phosibl**

| Y Canlyniad Manwl   | Dangosydd Data  | Ffynhonnell y dangosydd data a statws RAG  |
|---|---|--|
| <p><b>1. Llai o aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf</b></p> | (a) Nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartrefedd  | Yn fras, gan ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif y nifer unigryw o aelwydydd sy'n cyflwyno'u hunain fel rhai digartref. |
|   | (c) Canran yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref ar ôl cael cymorth awdurdodau lleol  | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi  |
|   | (c) Nifer (a chanran) yr aelwydydd oedd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ac oedd yn derbyn cymorth y ddyletswydd atal (adran 66) a ddaeth i ben o dan adran 67 (2) pan gawsant eu hunain yn ddigartref.  | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi  |
|   | (d) Nifer o aelwydydd yn profi digartrefedd cudd, rhifau absoliwt a fesul 10,000 o aelwydydd  | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol                               |
|   | (e) Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n nodi'r rhesymau canlynol fel eu prif reswm am golli eu cartref sefydlog diwethaf (adran 73): <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Rhiant ddim bellach yn barod neu'n gallu cynnig llety</li> <li>➤ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn barod neu'n gallu cynnig llety</li> <li>➤ Perthynas â phartner yn chwalu:</li> <li>➤ Heb drais</li> <li>➤ Treisgar</li> <li>➤ Treisgar ac aflonyddu:</li> <li>➤ Cymhellion hiliol</li> </ul> | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi  |

|  |   |   |
|--|---|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Oherwydd crefydd/cred</li> <li>➤ Oherwydd ailbennu rhywedd (hunaniaeth rhywedd)</li> <li>➤ Oherwydd hunaniaeth/cyfeiriadedd rhywiol</li> <li>➤ Oherwydd anabledd</li> <li>➤ Am reswm arall</li> <li>➤ Morgais heb ei dalu (ailfeddiannu'r cartref neu golli'r cartref mewn ffordd arall)</li> <li>➤ Rhent heb ei thalu:</li> <li>➤ Cartrefi sector cymdeithasol</li> <li>➤ Cartrefi sector preifat</li> <li>➤ Colli llety rhent neu lety clwm</li> <li>➤ Gadael carchar</li> <li>➤ Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, byddin ac ati)</li> <li>➤ Methu fforddio cartref presennol</li> <li>➤ Cartref presennol yn anaddas</li> <li>➤ Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o fod dramor, cysgu allan neu mewn hostel)</li> </ul> |   |
|  | <p>Cysylltiad â Phrif Amcan 1 y Grant Cymorth Tai:<br/>Mae pobl wedi gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth tai (cyngor, gwybodaeth, cymorth) ac yn fwy gwybodus am y cymorth sydd ar gael a/neu yn gwybod ble i fynd am gymorth</p>   | Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai. |
|  | <p>Cysylltiad â Phrif Amcan 4 y Grant Cymorth Tai:<br/>Mae pobl yn gallu rheoli'u cartref/llety ac mae hynny'n eu rhwystro rhag mynd yn ddigartrefedd neu orfod defnyddio gwasanaethau cyhoeddus</p>  | Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai. |



|  |   |   |
|--|---|---|
|  | mwy costus (e.e. iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol)   |   |
| <b>2. Caiff grwpiau uwch eu risg eu nodi a mesurau eu rhoi yn eu lle fel bod llai o bobl yn y grwpiau hynny'n profi digartrefedd</b> | (a) Nifer y bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion 'risg' y mae cymorth wedi'i roi ar ei gyfer (wedi'i rannu yn ôl adrannau 66, 73, a 75)   | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi'n rhannol   |
| <b>3. Mae plant a phobl ifanc mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael eu nodi'n gynnar a'u hatal rhag profi digartrefedd</b>         | (a) Nifer y plant dibynnol o dan 16 oed ac iau sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety   | Gall yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i> gofnodi'r data hyn. Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn cyhoeddi'r data yn ôl math o lety dros dro ac ar lefel Awdurdod Lleol. |
|  | (b) Nifer y bobl 16-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety<br>➤ Nifer y bobl ifanc 16-17 oed sy'n byw mewn llety dros dro<br>➤ Nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro<br>➤ Nifer y bobl ifanc 16-17 oed sy'n gadael gofal sy'n byw mewn llety dros dro<br>➤ Nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n gadael gofal sy'n byw mewn llety dros dro | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i> .  |
| <b>4. Neb yn ddigartref ar y stryd</b>   | (a) Nifer y bobl sy'n ddigartref ar y stryd bob mis, fesul awdurdod lleol (absoliwt a fesul 100,000 o'r boblogaeth)   | Data wedi'u cofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i> .  |
|  | (b) Nifer y bobl NEWYDD sy'n ddigartref ar y stryd fesul awdurdod lleol   | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i> .  |

|  |   |  |
|--|---|--|
| <p><b>5. Mae cymorth ar gael i sicrhau nad yw tor-berthynas neu chwalu teulu yn arwain at ddigartrefedd</b></p>        | <p>(a) Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n nodi'r rhesymau canlynol pam fod digartrefedd yn cael eu bygwth arnynt (adran 66) neu/a eu bod wedi colli eu cartref sefydlog diwethaf (adran 73)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Rhiant neu berthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn fodlon neu'n gallu cynnig llety</li> <li>➤ Perthynas â phartner yn chwalu – treisgar a heb drais</li> <li>➤ Rhiant ddim bellach yn fodlon neu'n gallu cynnig llety</li> <li>➤ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn fodlon neu'n gallu cynnig llety</li> </ul> | <p>Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi</p>   |
| <p><b>6. Cyflenwad digonol a mynediad at gartrefi fforddiadwy a diogel o ansawdd da i ddiwallu'r angen am dai.</b></p> | <p>(a) Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai</p>   | <p>Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru yn eu cofnodi</p>  |
|  | <p>(a) Cyflenwad tai</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Anheddau newydd wedi'u cwblhau</li> <li>➤ Maint yr unedau/nifer yr ystafelloedd gwely</li> <li>➤ Yr angen am dai</li> </ul>   | <p>Cofnodir ffynhonnell data'r dangosydd hwn yn nata amcangyfrifon y stoc anheddau, y data Anheddau Newydd sydd wedi'u cwblhau a data amcangyfrifon yr Angen am Dai.</p> |
|  | <p>(c) Nifer yr aelwydydd ar y cofrestrau tai</p>   | <p>Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol</p>  |
|  | <p>(d) Canran yr aelwydydd digartref sydd â tenantiaethau cymdeithasol a phreifat</p>   | <p>Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi</p>   |

|   |  |   |
|---|--|---|
|   | (e) Canran yr holl gartrefi sy'n bodloni safonau ansawdd tai cymdeithasol a thai rhent preifat.  | Bydd ffurflenni Safonau Ansawdd Tai Cymru yn cofnodi elfen tai cymdeithasol y dangosydd hwn a defnyddir data procsi sy'n defnyddio sgoriau EPC i gofnodi'r elfen rhentu preifat (tan y cyhoeddir yr arolwg nesaf o Gyflwr Tai Cymru). |
| <b>7. Mae gan bawb yng Nghymru yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion</b>                    | <p><b>Dangosydd 18</b> Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.</p> <p><b>Dangosydd 19</b> Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol</p> <p><b>Dangosydd 10</b> Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen</p> | Cofnodir y canlyniadau trwy gyfeirio at y ffactorau strwythurol ehangach a gynhwysir yn <a href="#">Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru</a> Llywodraeth Cymru.   |
| <b>8. Mae gan bawb yng Nghymru gyfle i gael swydd deilwng</b>   | <p><b>Dangosydd 16</b> Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar contractau parhaol (neu ar contractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol</p> <p><b>Dangosydd 21</b> Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith</p>   |   |
| <b>9. Mae pawb yng Nghymru yn gallu cael y gofal iechyd cynradd a chymdeithasol sydd eu hangen arnynt</b> | <p><b>Dangosydd 2:</b> Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus</p> <p><b>Dangosydd 24</b> Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt</p>  |   |

**BYRHOEDLOG: Mae pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os ydyn nhw'n profi digartrefedd**

| Canlyniad Manwl   | Dangosydd Data   | Ffynhonnell y dangosydd data a'r statws RAG  |
|---|--|--|
| <p><b>1. Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn gallu cael cartref sefydlog cyn gyflymed â phosibl</b></p> | <p>(a) Faint o amser rhwng rhoi pobl mewn llety dros dro gyntaf a'u symud i lety sefydlog (yn ôl categori hyd)</p>             | <p>Mesurir y bwlch gan ddefnyddio'r ffigurau data Digartrefedd Statudol (trwy ddefnyddio'r amser a dreulir mewn llety dros dro)</p>  |
|   | <p>(b) Nifer y bobl sy'n cael eu rhoi mewn llety addas tymor hir yn y cyfnod</p>   | <p>Mae'r data hyn ar gael yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>. Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi yn ôl math o lety dros dro ac ar lefel Awdurdod Lleol.</p> |
|   | <p>(c) Faint o amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog.</p>   | <p>Nid oes ffynonellau sy'n cofnodi'r dangosydd hwn, ac mae'n annhebygol a fydd unrhyw rai nes bod data ar lefel achosion unigol ar gael. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol</p>                      |
|   | <p>(d) Faint o amser rhwng nodi bod pobl yn ddigartref ar y stryd a'u symud i lety sefydlog</p>                                | <p>Nid oes ffynonellau sy'n cofnodi'r dangosydd hwn, ac mae'n annhebygol a fydd unrhyw rai nes bod data ar lefel achosion unigol ar gael. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol</p>                      |
| <p><b>2. Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir</b></p>  | <p>(a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd)</p>                | <p>Ceir procsi ar gyfer y dangosydd hwn trwy ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif nifer yr aelwydydd sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro am gyfnod tymor hir</p>                                       |
|   | <p>(b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth)</p> | <p>Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>.</p>   |

|  |   |   |
|--|---|---|
| <b>3. Pobl yn gallu cael at gymorth amlasiantaethol wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol pan fo gofyn.</b> | (a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o brofi digartrefedd  | Ceir procsi ar gyfer y dangosydd hwn trwy ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno'u hunain ar gyfer cymorth (adran 66 ac adran 73). |
|  | (b) Prif Ganlyniad 2 y Grant Cymorth Tai – Mae pobl wedi gallu cael llety â chymorth brys neu dros dro  | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai  |
|  | (c) Prif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth tai – Mae pobl yn gallu cael a chadw tenantiaeth mewn cartref sefydlog addas. Ni fydd data canlyniadau'r grant cymorth tai yn gallu dweud beth oedd yr amser cyfeirio. | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai  |

**DDIM YN DIGWYDD ETO: Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref**

| Canlyniad Manwl  | Dangosydd Data  | Ffynhonnell y dangosydd data a'r statws RAG  |
|--|---|--|
| <p><b>1. Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref</b></p>                   | <p>(a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73 neu adran 75) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn <b>X</b> mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o'r holl geisiadau).</p> | <p>Cofnodir y data gan fesur procsi o'r wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>. Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi.</p> |
|  | <p>(b) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd.</p>   | <p>Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>.</p>   |
| <p><b>2. Mae pobl yn cael cymorth sy'n briodol i'w anghenion i gadw eu tenantiaethau</b></p> | <p>Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl yn gallu cael cartref sefydlog addas a'i gadw</p>   | <p>Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai</p>  |
|  | <p>(a) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd am yr eildro</p>  | <p>Cofnodir y data gan fesur procsi o'r wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>. Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi.</p> |
|  | <p>(b) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd ar y stryd am yr eildro</p>   | <p>Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol <i>Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan</i>.</p>   |
|  | <p>(c) Cyfradd cadw tenantiaethau ar draws yr holl brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru</p>   | <p>Cofnodir yn uniongyrchol gan Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru.</p>   |
| <p>(d) Nifer y bobl y daeth eu tenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben oherwydd<br/>➤ Carchar</p>    | <p>Cofnodir yn uniongyrchol gan Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru.</p>  |  |

|   |  |  |
|---|--|--|
|   | <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Marwolaeth</li> <li>➤ Symud i leoliad gofal iechyd/cymdeithasol</li> <li>➤ Dewis gadael</li> <li>➤ Symud i denantiaeth nad yw gyda Tai yn Gyntaf</li> <li>➤ Troi allan</li> <li>➤ Arall/Ddim yn gwybod</li> </ul> |  |
| <b>3. Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir</b> | Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl yn gallu cael cartref sefydlog addas a'i gynnal   | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai   |
|   | (a) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth (Anghenion isel/Canolig)  | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol.                              |
|   | (b) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel)  | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn fel y mae, felly defnyddir dangosydd o Tai yn Gyntaf gan Cymorth Cymru fel procsi. |
|   | (c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth (Anghenion Dwys)  | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol.                              |
|   | (d) Canran y bobl sy'n fodlon â'u hardal fel lle i fyw ynddo   | Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru yn eu cofnodi   |

**GWEITHLU: Datblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy'n gadarn ac sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod am ei arbenigedd**

| Canlyniad Manwl  | Dangosydd Data  | Ffynhonnell y dangosydd data a'r statws RAG  |
|--|---|--|
| <p>1. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad.</p>   | <p><b>CADWR LLE: Mae dangosyddion data'n cael eu datblygu wrth ddatblygu'r arolwg</b></p> | <p>Arolwg blynyddol newydd Llywodraeth Cymru o brofiadau gweithlu cymorth ym maes tai a digartrefedd</p> |
| <p>2. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn alluog ac yn hyderus ac yn cael y gefnogaeth a'r amser, i ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma</p> |   |  |
| <p>3. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn cael eu recriwtio a'u cadw i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru am dai.</p>   |   |  |



**YMATEB GWASANAETHAU CYHOEDDUS:** Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drama i roi diwedd ar ddigartrefedd

Ceir bylchau yn y Canlyniad Strategol hwn am fod adolygiad yn cael ei gynnal o'r ddeddfwriaeth.

| Canlyniad Manwl  | Dangosydd Data   | Ffynhonnell y dangosydd data a'r statws RAG   |
|--|--|---|
| <p><b>1. Mae pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o'i brofi yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn cael eu trin ag urddas a pharch gan wasanaethau cyhoeddus eraill.</b></p>            | <p><b>Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio</b></p>   | <p>Arolwg/Ymchwil KAS</p>   |
| <p><b>2. Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau gan wasanaethau cyhoeddus eraill i ddigartrefedd.</b></p>   | <p>(a) Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau gan wasanaethau cyhoeddus i ddigartrefedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuencid</li> <li>➤ pobl ifanc sy'n gadael gofal</li> <li>➤ pobl sy'n gadael y lluoedd arfog rheolaidd</li> <li>➤ pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth am anhwylder meddwl fel claf mewnol, a</li> <li>➤ pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned</li> </ul> | <p>Posibilrwydd ei gofnodi ar ffurflen ddata Digartrefedd Statudol, ychwanegiadau data i gofnodi'n llawn y dangosydd data fydd yn cael ei ystyried.</p> |
| <p><b>3. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cydnabod eu rôl o ran nodi'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, sicrhau bod mesurau ataliol yn eu lle a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio priodol.</b></p> | <p><b>Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio</b></p>   | <p>Arolwg/Ymchwil KAS</p>   |

**CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau mynediad cyfartal i bawb sy'n diwallu anghenion eu pobl leol ac sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.**

| Canlyniad Manwl   | Dangosydd Data   | Ffynhonnell y dangosydd data a'r statws RAG  |
|---|--|--|
| <p><b>1. Mae pobl yn cael cymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn ac yn cael eu trin ag urddas a pharch.</b></p>   | <p><b>Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio</b></p>   | <p>Arolwg/Ymchwil KAS</p>  |
| <p><b>2. Nid yw pobl sy'n wynebu rhwystrau penodol (oherwydd nodweddion gwarchoddedig, profiadau blaenorol ac ati) yn profi mwy na'u cyfran o ddigartrefedd</b></p> | <p>(a) Nifer y bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion 'risg' y maent wedi cael cymorth ar ei gyfer (yn ôl adrannau 66, 73 a 75)</p>  | <p>Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi'n rhannol</p>   |
|   | <p>(b) Hyd yr amser mewn llety dros dro yn ôl grŵp (<i>dangosydd interim</i>)</p>  | <p>Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn, fel y mae. Ond gallwn ei amcangyfrif trwy ddefnyddio data amser mewn llety dros dro yn ôl rhyw, sy'n cael eu cofnodi yn y data Digartrefedd Statudol</p> |
|   | <p>(c) Faint o amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog yn ôl grŵp amrywiaeth.</p>   | <p>Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol.</p>   |
|   | <p>(d) Nifer y bobl o bob grŵp amrywiaeth sy'n profi digartrefedd tymor hir</p>  | <p>Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol.</p>   |
| <p><b>3. Pobl sydd wedi byw profiadau sy'n dylanwadu ar bolisi ac arferion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a darparwyr gwasanaethau</b></p>                     | <p><b>Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio</b></p> <p>Arolwg blynyddol o'r rheini sydd â phrofiadau byw – gellir bwydo'r canlyniadau fel dangosyddion.</p> | <p>Arolwg/Ymchwil KAS ar gyfer unigolion sydd wedi byw profiadau</p>   |